GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Ymchwil a Gwerthuso

# Defnydd o'r rhyngrwyd a thechnoleg ddigidol i reoli iechyd yng Nghymru: dewisiadau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol

**Diana Bright, Karen Hodgson, Enfys Preece, Alisha R. Davies**

## Atodiad Technegol



# Dulliau a demograffeg poblogaeth

Rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022, cynhaliwyd arolwg trawstoriadol o breswylwyr yng Nghymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynhaliwyd y gwaith maes gan DJS Research Ltd, Cwmni Ymchwil i'r Farchnad proffesiynol. Roedd pob cyfweliad yn dilyn Cod Ymarfer y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS).

# Sampl

Dilynwyd dull samplu cwota ar hap haenedig i gael sampl oedd yn gynrychioliadol yn genedlaethol o oedolion 16+ oed ar draws Cymru yn gosod targedau cyffredinol fesul Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) wedi eu haenu gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Dewiswyd cysylltiadau dros y ffôn ar hap a chawsant eu rhannu'n gyfartal rhwng rhifau ffonau symudol a llinellau tir. Gosodwyd cwotâu i gyflawni nifer gymesur o gyfweliadau o fewn pob BILl yn ôl oed, rhywedd a chwintel MALlC gan ddefnyddio'r ystadegau poblogaeth diweddaraf oedd ar gael[1]. Gan ddefnyddio Cyfweld Dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur (CATI), cwblhawyd cyfanswm o 2,027 o gyfweliadau dros y ffôn (cyfradd ymateb o 5%). Dim ond un cyfweliad CATI a gynhaliwyd fesul aelwyd. I gynyddu maint sampl cyfranogwyr iau, cwblhawyd 449 o gyfweliadau pellach gan ddefnyddio Cyfweld Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAPI). Cafodd y cyfranogwyr eu recriwtio wyneb yn wyneb ar y stryd gan ddilyn yr un dull samplu. Oherwydd hyn, ni ellid cyfrifo'r gyfradd ymateb ar gyfer cyfweliadau CAPI.

Roedd y boblogaeth a arolygwyd yn gynrychiolaeth o boblogaeth gyffredinol Cymru ar draws rhywedd, oed a chwintel amddifadedd (Tabl S1). Roedd y sampl hefyd yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyffredinol o ran gwledigrwydd (29.8%). Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a arolygwyd o ethnigrwydd gwyn (95.4%), ni gymhwyswyd unrhyw bwysoliad ond cafodd cyfrannau eu haddasu yn ôl oed, rhywedd ac amddifadedd.

**Tabl S1. Demograffeg y sampl o'i gymharu ag amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (2020) Cymru ONS**

| | | Sampl (N=2,448)[1] | | Poblogaeth, ONS 2020 (N=2,606,856) | | $\chi^2$ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | % | N | % | *p* |
| **Rhywedd** | Gwrywaidd | 1,196 | 48.9 | 1,275,303 | 48.9 | 0.077 |
| | Benywaidd | 1,252 | 51.1 | 1,331,553 | 51.5 | |
| **Grŵp oedran (blynyddoedd)** | 16-29 | 359 | 14.7 | 553,718 | 21.2 | 0.613 |
| | 30-44 | 433 | 17.7 | 555475 | 21.3 | |
| | 45-59 | 696 | 28.4 | 631,657 | 24.2 | |
| | 60-74 | 717 | 29.3 | 559,257 | 21.5 | |
| | 75+ | 243 | 9.9 | 306,749 | 11.8 | |
| **Cwintel amddifadedd** | C1 (mwyaf difreintiedig) | 436 | 17.8 | 488,431 | 18.7 | 0.984 |
| | C2 | 426 | 17.4 | 508,821 | 19.5 | |
| | C3 | 519 | 21.2 | 544,041 | 20.9 | |
| | C4 | 541 | 22.1 | 539,970 | 20.7 | |
| | C5 (lleiaf difreintiedig) | 526 | 21.5 | 525,593 | 20.2 | |

[1] cafodd 28 o unigolion eu hallgáu oherwydd data demograffeg coll
[2] Gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol 2020 ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) yn ôl rhywedd, grŵp oedran (ONS, 2020) a chwintel amddifadedd (MALlC; Llywodraeth Cymru, 2019)

[1] Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (2020) Cymru ONS

## Holiadur

Datblygwyd cynnwys yr holiadur gan ddefnyddio cwestiynau am dechnoleg ddigidol, defnydd o'r rhyngrwyd, statws iechyd a demograffeg o ffynonellau wedi eu dilysu lle y bo'n bosibl neu eu datblygu gan y tîm ymchwil gan ddefnyddio themâu o'r llenyddiaeth (Tabl S2). Cynhaliwyd cynllun peilot o'r holiadur yn fewnol gan y tîm ymchwil ac yn allanol gan DJS Research Ltd cyn ei weithredu.

I bennu a oedd gan y cyfranogwr fynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd, gofynnwyd y cwestiynau yn Nhabl S2 i ddosbarthu pob cyfranogwr naill ai fel "defnyddiwr rhyngrwyd' neu "ddim yn ddefnyddiwr rhyngrwyd". Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn defnyddio'r rhyngrwyd i reoli neu gefnogi eu hiechyd trwy bum gweithgaredd yn ymwneud ag iechyd. Yr opsiynau ymateb oedd 'drwy'r amser', 'y rhan fwyaf o'r amser', 'rhywfaint o'r amser', 'anaml', a 'byth'. Ar gyfer y dadansoddiad, canolbwyntiwyd ar amlder y defnydd a chafodd yr ymatebion eu categoreiddio fel 'ddim yn defnyddiwr', 'defnyddiwr isel', a 'defnyddiwr aml'. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd am fanteision ac anfanteision defnyddio gwybodaeth neu wasanaethau ar y rhyngrwyd, cafodd yr opsiynau ymateb eu categoreiddio yn 'cytuno', 'ansicr', ac 'anghytuno'.

**Tabl S2. Trosolwg o fesurau, cwestiynau a chategorïau gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad**

| Mesur | Cwestiwn (cwestiynau) | Categorïau |
|---|---|---|
| Mynediad i'r rhyngrwyd gartref (1) y flwyddyn cyn y pandemig, a (2) ers i'r pandemig ddechrau | (1) A oedd gennych fynediad i'r rhyngrwyd gartref y flwyddyn **cyn** i bandemig Covid-19 ddechrau (rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2020)?<br>(2) Ers i bandemig Covid-19 ddechrau ym Mawrth 2020, ydych chi wedi cael mynediad i'r rhyngrwyd gartref? | **Ydw/defnyddiwr rhyngrwyd** (trwy fand eang; data symudol; y ddau)<br>**Na/ddim yn ddefnyddiwr** |
| Defnydd o'r rhyngrwyd i reoli iechyd neu i chwilio am adnoddau iechyd (1) y flwyddyn cyn y pandemig; (2) ers i'r pandemig ddechrau, a (3) dewisiadau yn y dyfodol | (1) Gan feddwl am yr un gweithgareddau, yn y flwyddyn cyn y pandemig, pa mor aml wnaethoch chi ddefnyddio'r rhyngrwyd?<br>(2) Ers i'r pandemig ddechrau ym Mawrth 2020, wrth gwblhau'r gweithgareddau canlynol, pa mor aml ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd?<br>(3) Yn y dyfodol, pa mor aml fyddech chi'n hoffi defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer y tasgau canlynol?<br>• I olrhain ymddygiad iach neu symptomau (pethau fel monitro camau neu ddeiet, neu gofnodi symptomau)<br>• I gael gwybodaeth am gyflyrau iechyd neu wasanaethau iechyd (e.e., oriau agor meddyg teulu)<br>• I wneud cais am apwyntiad gofal iechyd neu bresgripsiwn (ar wahân i frechlyn COVID-19)<br>• I gael gofal clinigol (e.e., ymgynghoriad meddyg teulu neu therapi seicolegol)<br>• I chwilio am weithgareddau'n ymwneud â COVID-19 (e.e., olrhain symptomau, archebu brechlyn, Profi ac Olrhain; ar gyfer ymddygiad presennol yn unig). | **Defnyddiwr aml** (drwy'r amser; y rhan fwyaf o'r amser)<br>**Defnyddiwr isel** (rhywfaint o'r amser; anaml)<br>**Ddim yn ddefnyddiwr** (byth) |
| Cyflyrau hirdymor | A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n parhau neu y disgwylir iddo barhau am 12 mis neu fwy? [1] | **Oes**<br>**Nac oes** |
| Manteision ac anfanteision defnyddio gwybodaeth / gwasanaethau rhyngrwyd | A allwch chi ddweud i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol yn ymwneud â defnyddio'r rhyngrwyd i gynorthwyo eich iechyd?<br>**Manteision**<br>• Mae'r rhyngrwyd yn ei wneud yn fwy cyfleus i mi gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnaf ar gyfer fy iechyd.<br>• Mae'n well gennyf yr anhysbysrwydd o ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer fy iechyd.<br>• Mae fy mhrofiad fel claf yn well pan fyddaf yn defnyddio opsiynau ar y rhyngrwyd i gael mynediad i ofal iechyd.<br>**Anfanteision**<br>• Rwy'n poeni am gywirdeb gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd o'r rhyngrwyd.<br>• Rwy'n poeni am breifatrwydd a diogeledd fy nata wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer anghenion yn ymwneud ag iechyd.<br>• Nid yw adnoddau iechyd ar-lein yn addas ar gyfer fy amgylchiadau/anghenion. | **Manteision:**<br>**Cytuno** (cytuno'n gryf; cytuno)<br>**Ansicr** (ansicr)<br>**Anghytuno** (anghytuno'n gryf; anghytuno)<br><br>**Anfanteision:**<br>**Cytuno** (cytuno'n gryf, cytuno)<br>**Ansicr** (ansicr)<br>**Anghytuno** (anghytuno'n gryf; anghytuno) |

[1] Cwestiwn wedi ei ddilysu o Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021

**Tabl S3. Canran y rheiny sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref yn ôl demograffeg a chyflyrau hirdymor (poplogaeth sampl; heb ei addasu)**

| | | % (95% CI) | $\chi^2$ | p |
|---|---|---|---|---|
| **Pawb (N=136)** | | 5.6 (4.6-6.5) | - | - |
| **Rhywedd** | Gwrywaidd<br>Benywaidd | 5.3 (4.2-6.9)<br>5.8 (4.8-7.6) | 0.370 | 0.320 |
| **Grŵp oedran (blynyddoedd)** | 16-29<br>30-44<br>45-59<br>60-74<br>75+ | 0.4 (-0.1- 0.9)<br>1.0 (0.1-1.8)<br>1.3 (0.4-2.3)<br>8.1 (6.3-11.3)<br>27.4 (31.2-44.4) | 333.358 | <0.001 |
| **Cwintel amddifadedd[1]** | 1 (Mwyaf difreintiedig)<br>2<br>3<br>4<br>5 (Lleiaf difreintiedig) | 8.1 (6.1-11.5)<br>6.5 (4.6-9.3)<br>6.6 (4.8-9.4)<br>4.7 (3.0-6.9)<br>1.8 (0.7-3.1) | 21.316 | <0.001 |
| **Cyflyrau hirdymor** | Gyda<br>Heb | 7.3 (6.2-9.5)<br>4.2 (3.3-5.5) | 10.560 | <0.001 |

[1] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; cwintel cyffredinol (MALlC; Llywodraeth Cymru, 2019); CI= cyfwng hyder

**Tabl S4. Mynediad i'r rhyngrwyd gartref**
Mae'r gwerthoedd yn ganrannau yn y boblogaeth sampl (poblogaeth sampl, heb ei haddasu)

| Mynediad i'r rhyngrwyd (N=2,312) | N | % |
|---|---|---|
| **Mynediad blaenorol[1]** | 2,301 | 99.5 |
| **Mynediad newydd[2]** | 11 | 0.5 |

[1] Mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y flwyddyn cyn y pandemig ac wedi parhau'n gysylltiedig trwy gydol 2020/21
[2] Wedi cael mynediad i'r rhyngrwyd gartref ers i'r pandemig ddechrau

**Tabl S5. Canran y rheiny â mynediad i'r rhyngrwyd yn defnyddio'r rhyngrwyd yn aml i reoli eu hiechyd ers i'r pandemig ddechrau**
Cyfrannau heb eu haddasu (Cyfyngau Hyder o 95%) o'r boblogaeth sampl.

| Cyfnod o amser | | Un neu fwy o weithgareddau'n ymwneud ag iechyd[1] | Olrhain ymddygiad iach | Canfod gwybodaeth iechyd | Gwneud cais am apwyntiad neu bresgripsiwn | Derbyn gofal clinigol | Gweithgareddau COVID-19[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ers i'r pandemig ddechrau** | N | 2,312 | 2,257 | 2,270 | 2,256 | 2,243 | 2,269 |
| | % (95 CI) | 46.3 (44.3-48.4) | 22.4 (20.6-24.0) | 22.4 (20.8-24.3) | 16.3 (14.8-17.8) | 8.0 (6.9-9.1) | 26.7 (24.9-28.5) |

[1] Yn cynnwys bob un o'r pum gweithgaredd yn ymwneud ag iechyd; mae gwerthoedd N yn dangos nifer y gwerthoedd nad ydynt ar goll fesul newidyn

**Tabl S6. Canran y rheiny â mynediad i'r rhyngrwyd yn defnyddio'r rhyngrwyd yn aml i reoli eu hiechyd yn ôl cyfnod**
Cyfrannau heb eu haddasu (Cyfyngau Hyder o 95%) o'r boblogaeth sampl

| Cyfnod o amser | | Un neu fwy o weithgareddau'n ymwneud ag iechyd[1] | Olrhain ymddygiad iach | Canfod gwybodaeth iechyd | Gwneud cais am apwyntiad neu bresgripsiwn | Derbyn gofal clinigol | Gweithgareddau COVID-19[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y flwyddyn cyn y pandemig | N | 2,312 | 2,254 | 2,270 | 2,259 | 2,247 | - |
| | % (95 CI) | 25.3 (23.5-27.1) | 15.4 (13.9-16.8) | 13.2 (12.0-14.8) | 9.2 (8.1-10.4) | 2.9 (2.2-3.6) | - |
| Ers i'r pandemig ddechrau | N | 2,312 | 2,257 | 2,270 | 2,256 | 2,243 | 2,269 |
| | % (95 CI) | 39.6 (37.6-41.6) | 22.4 (20.6-24.0) | 22.4 (20.8-24.3) | 16.3 (14.8-17.8) | 8.0 (6.9-9.1) | 26.7 (24.9-28.5) |
| Dewisiadau yn y dyfodol | N | 2,312 | 2,312 | 2,312 | 2,312 | 2,312 | - |
| | | 53.1 (51.1-55.2) | 32.3 (30.4-34.2) | 35.0 (33.1-37.0) | 35.6 (33.6-37.5) | 18.3 (16.8-19.9) | - |

[1] Ac eithrio gweithgareddau COVID-19
[2] Cafodd y gweithgaredd hwn ond ei gynnwys wrth ofyn am y cyfnod ers i'r pandemig ddechrau
Mae gwerthoedd N yn dangos nifer y gwerthoedd nad ydynt yn rhai coll fesul newidyn

**Tabl S7. Defnydd aml o'r rhyngrwyd i reoli iechyd yn ôl demograffeg cymdeithasol a chyflyrau hirdymor *ers i'r pandemig ddechrau***
Cyfran wedi ei addasu (cyfyngau hyder o 95%) o'r boblogaeth sampl wedi ei addasu ar gyfer oed, rhywedd, ac amddifadedd

| | | Olrhain ymddygiad iach (N=2,257) | Canfod gwybodaeth iechyd (N=2,270) | Gwneud cais am apwyntiad neu bresgripsiwn (N=2,256) | Derbyn gofal clinigol(N=2,243) |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhywedd | Gwrywaidd | 17.6 (14.9-20.4) | 20.6 (17.9-23.4) | 17.1 (14.6-19.6) | 6.7 (4.8-8.5) |
| | Benywaidd | 25.4 (23.2-27.6) | 23.0 (20.9-25.2) | 16.2 (14.3-18.2) | 9.3 (7.9-10.7) |
| Grŵp oedran (blynyddoedd) | 16-29 | 31.0 (26.7-35.3) | 28.7 (24.4-33.1) | 17.6 (13.7-21.6) | 9.4 (6.5-12.4) |
| | 30-44 | 30.3 (26.4-34.2) | 28.2 (24.3-32.1) | 17.3 (13.8-20.9) | 10.6 (8.0-13.3) |
| | 45-59 | 26.9 (23.9-30.0) | 25.9 (22.9-28.9) | 17.8 (15.0-20.6) | 10.0 (7.9-12.0) |
| | 60-74 | 13.2 (10.0-16.3) | 15.1 (12.0-18.3) | 16.3 (13.4-19.1) | 5.6 (3.5-7.8) |
| | 75+ | 3.4 (2.7-9.6) | 5.8 (1.0 – 11.9) | 8.9 (3.4-14.4) | 3.8 (0.1-7.9) |
| Cwintel amddifadedd[1] | 1 (mwyaf difreintiedig) | 20.1 (16.0-24.2) | 19.4 (15.3-23.5) | 14.8 (11.1-18.5) | 8.2 (5.5-11.0) |
| | 2 | 23.5 (19.5-27.6) | 24.4 (20.3-28.4) | 18.1 (14.4-21.8) | 12.6 (9.9-15.3) |
| | 3 | 22.5 (18.8-26.2) | 21.8 (18.1-25.5) | 14.9 (11.6-18.3) | 7.0 (4.6-9.5) |
| | 4 | 22.3 (18.8-25.9) | 20.8 (17.2-24.3) | 16.0 (12.8-19.3) | 5.1 (2.7-7.5) |
| | 5 (lleiaf difreintiedig) | 23.6 (20.1-27.2) | 24.1 (20.5-27.7) | 18.8 (15.5-22.0) | 9.3 (6.9-11.7) |
| Cyflyrau hirdymor | Gyda | 24.6 (22.1-27.2) | 25.4 (22.9-28.0) | 22.2 (19.9-24.5) | 10.4 (8.7-12.1) |
| | Heb | 20.7 (18.5-23.0) | 19.4 (17.1-21.7) | 11.9 (9.8-14.0) | 6.6 (5.0-8.1) |

[1] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; cwintel cyffredinol (MALlC; Llywodraeth Cymru, 2019)
Mae gwerthoedd N yn dangos nifer y gwerthoedd nad ydynt yn rhai coll fesul newidyn

**Tabl S8. *Dewisiadau yn y dyfodol* ar gyfer defnydd aml o'r rhyngrwyd i reoli iechyd yn ôl demograffeg cymdeithasol a chyflyrau hirdymor**
Cyfran wedi ei haddasu (cyfyngau hyder o 95%) o'r boblogaeth sampl gan addasu ar gyfer oed, rhywedd, ac amddifadedd

| | | Olrhain ymddygiad iach (N=2,312) | Canfod gwybodaeth iechyd (N=2,312) | Gwneud cais am apwyntiad neu bresgripsiwn (N=2,312) | Derbyn gofal clinigol (N=2312) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | Gwrywaidd | 31.5 (28.5-34.5) | 34.0 (30.9-37.1) | 36.7 (33.5-39.5) | 19.2 (16.6-21.7) |
| | Benywaidd | 31.3 (29.0-33.7) | 35.3 (32.8-37.7) | 35.0 (32.5-37.4) | 17.6 (15.6-19.6) |
| **Grŵp oedran (blynyddoedd)** | 16-29 | 39.0 (34.3-43.8) | 34.8 (29.9-39.6) | 33.7 (28.8-38.6) | 20.4 (16.4-24.3) |
| | 30-44 | 40.8 (36.5-45.2) | 44.1 (39.7-48.5) | 42.0 (37.5-46.5) | 23.6 (19.9-27.2) |
| | 45-59 | 37.5 (34.1-40.9) | 43.8 (40.3-47.3) | 42.3 (38.8-45.9) | 21.0 (18.1-23.9) |
| | 60-74 | 20.8 (17.4-24.3) | 25.8 (22.2-29.3) | 30.6 (27.0-34.2) | 13.7 (10.7-16.6) |
| | 75+ | 9.0 (2.3-15.7) | 11.1 (4.2-17.9) | 16.5 (9.5-23.5) | 6.9 (1.3-12.6) |
| **Cwintel amddifadedd**[1] | 1 (mwyaf difreintiedig) | 26.5 (22.0-31.0) | 30.1 (25.4-34.7) | 30.7 (26.0-35.4) | 18.4 (14.7-22.2) |
| | 2 | 34.0 (29.5-38.5) | 34.9 (30.2-39.5) | 34.7 (30.0-39.4) | 17.9 (14.1-21.7) |
| | 3 | 28.8 (24.7-32.9) | 32.9 (28.7-37.1) | 36.6 (32.4-40.9) | 16.6 (13.2-20.0) |
| | 4 | 32.8 (28.8-36.7) | 33.9 (29.8-38.0) | 34.3 (30.1-38.4) | 16.7 (13.4-20.1) |
| | 5 (lleiaf difreintiedig) | 34.2 (30.2-28.1) | 41.0 (36.9-45.1) | 40.5 (36.3-44.6) | 21.2 (17.8-24.5) |
| **Cyflyrau hirdymor** | Gyda | 34.4 (31.6-37.2) | 37.1 (34.2-40.0) | 39.0 (36.1-41.9) | 19.5 (17.2-21.9) |
| | Heb | 28.9 (26.4-31.4) | 32.9 (30.3-35.5) | 32.8 (30.2-35.5) | 17.1 (14.9-19.2) |

[1] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; cwintel cyffredinol (MALlC; Llywodraeth Cymru, 2019)
Mae gwerthoedd N yn dangos nifer y gwerthoedd nad ydynt yn rhai coll fesul newidyn

**Tabl S9. Cysylltiad rhwng manteision ac anfanteision ymddangosiadol y rhyngrwyd ac amlder y defnydd o'r rhyngrwyd i reoli iechyd ers i'r pandemig ddechrau**
Mae'r gwerthoedd yn ganrannau yn y boblogaeth sampl (heb eu haddasu, darperir cysylltiad yn ôl Chi-sgwâr)

| | N | Lefel y cytundeb | Ddim yn ddefnyddiwr | Defnyddiwr isel | Defnyddiwr aml | $\chi^2$ | p |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manteision** | | | | | | | |
| Mwy cyfleus i gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnaf ar gyfer fy iechyd [1,2,3] | 2,285 | Cytuno'n gryf / cytuno | 16.0 | 48.5 | 65.7 | 234.466 | **<0.001** |
| | | Heb benderfynu | 36.3 | 26.4 | 19.9 | | |
| | | Anghytuno'n gryf / anghytuno | 47.7 | 25.1 | 14.4 | | |
| Mae'n well gennyf yr anhysbysrwydd o ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer fy iechyd [1,3] | 2,284 | Cytuno'n gryf / cytuno | 18.6 | 34.3 | 42.9 | 77.379 | **<0.001** |
| | | Heb benderfynu | 26.4 | 30.9 | 26.2 | | |
| | | Anghytuno'n gryf / anghytuno | 55.4 | 34.8 | 34.6 | | |
| Profiad claf gwell wrth ddefnyddio opsiynau rhyngrwyd i gael mynediad i ofal iechyd [1,2,3] | 2,285 | Cytuno'n gryf / cytuno | 8.5 | 16.2 | 27.9 | 55.040 | **<0.001** |
| | | Heb benderfynu | 26.3 | 31.3 | 28.6 | | |
| | | Anghytuno'n gryf / anghytuno | 65.1 | 52.5 | 43.4 | | |
| **Anfanteision** | | | | | | | |
| Rwy'n poeni am gywirdeb gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd ar-lein | 2,283 | Cytuno'n gryf / cytuno | 47.9 | 53.0 | 57.3 | 15.946 | 0.003 |
| | | Heb benderfynu | 31.1 | 29.7 | 23.1 | | |
| | | Anghytuno'n gryf / anghytuno | 21.1 | 17.3 | 19.5 | | |
| Rwy'n poeni am breifatrwydd a diogeledd fy nata wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer anghenion yn ymwneud ag iechyd | 2,283 | Cytuno'n gryf / cytuno | 55.4 | 52.8 | 51.8 | 11.351 | 0.023 |
| | | Heb benderfynu | 22.8 | 20.4 | 17.8 | | |
| | | Anghytuno'n gryf / anghytuno | 21.8 | 26.8 | 30.4 | | |
| Nid yw adnoddau iechyd yn addas ar gyfer fy anghenion / amgylchiadau [1,2,3] | 2,286 | Cytuno'n gryf / cytuno | 53.4 | 35.8 | 32.9 | 87.349 | **<0.001** |
| | | Heb benderfynu | 26.7 | 36.9 | 26.3 | | |
| | | Anghytuno'n gryf / anghytuno | 19.9 | 27.4 | 40.8 | | |

Gwahaniaeth sylweddol (p<0.001) rhwng
[1] ddim yn ddefnyddwyr a defnyddwyr aml
[2] defnyddwyr isel a defnyddwyr aml, neu
[3] ddim yn ddefnyddwyr a defnyddwyr isel;
mae gwerthoedd N yn dangos nifer y gwerthoedd nad ydynt yn rhai coll fesur newidyn

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
Ymchwil a Gwerthuso

**ISBN 978-1-83766-150-3**
Defnydd o'r rhyngrwyd a thechnoleg ddigidol i reoli iechyd yng Nghymru: dewisiadau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Atodiad Technegol

Is-adran Ymchwil a Gwerthuso
Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

Ebost: PHW.Research@wales.nhs.uk

@PublichealthW @PHREWales

/PublicHealthWales

**phw.nhs.wales**